Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2013**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Alun Davidson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 3, 8 a 9

**Sesiwn breifat**

### 3 Newid yn yr Hinsawdd : (09:30 - 10:50) (Tudalennau 1 - 117)

E&S(4)-31-13 papur 1
E&S(4)-31-13 papur 2
E&S(4)-31-13 papur 3

Yr Athro James Scourse, Cyfarwyddwr Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru
Yr Athro Nick Pidgeon, Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Gareth Wyn Jones, Prifysgol Bangor

**Egwyl (10.50 - 11.00)**

**Sesiwn gyhoeddus**

### 4 Bil yr Amgylchedd - Papur Gwyn: Tystiolaeth gan Cyfoeth Naturiol

**Cymru (11:00 – 11:45)** (Tudalennau 118 - 132)

Yr Athro Peter Matthews, Cadeirydd
Dr Emyr Roberts, Prif Weithredwr

## 5 Bil yr Amgylchedd – Papur Gwyn: Tystiolaeth gan Grwpiau'r Amgylchedd (11:45 – 12:30)

Rachel Sharp, Prif Weithredwr Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Anne Meikle, Pennaeth WWF Cymru
Katie-jo Luxton, Cyfarwyddwr RSPB Cymru
Gill Bell, Rheolwr Rhaglen Cymru, y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Gareth Clubb, Cyfarwyddwr, Cyfeillion y Ddaear Cymru

## 6 Bil yr Amgylchedd – Papur Gwyn: Tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (12:30 – 13:15)

Tim Peppin, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Datblygu Cynaliadwy
Neville Rookes, Swyddog Polisi - Amgylchedd

## 7 Papurau i'w nodi (Tudalennau 133 - 135)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr

**Cyllideb Ddrafft 2014–2015 – Adroddiad y Cadeirydd** (Tudalennau 136 - 145)
E&S(4)-31-13 papur 4

**Sesiwn breifat**

## 8 Ymchwiliad i rywogaethau goresgynnol estron – llythyr ddrafft at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (Tudalennau 146 - 151)

## 9 Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) – Ystyried y canllawiau ddrafft

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2013** |
| Amser: | **09:30 – 12:25** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_04_12_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw<br>Russell George<br>Vaughan Gething<br>Llyr Gruffydd<br>Julie James<br>Julie Morgan<br>William Powell<br>Antoinette Sandbach<br>Joyce Watson |
| Tystion: | Alun Davies, Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd<br>Rhodri Asby, Llywodraeth Cymru<br>Andy Fraser, Llywodraeth Cymru<br>Julia Hill, Llywodraeth Cymru<br>Nia James, Llywodraeth Cymru<br>Fiona Leadbitter, Llywodraeth Cymru<br>Jasper Roberts, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Alun Davidson (Clerc)<br>Naomi Stocks (Ail Clerc)<br>Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)
Nia Seaton (Ymchwilydd)
Chloe Corbyn (Ymchwilydd)

## 1 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.22 i ethol Cadeirydd dros dro

1.1 Yn absenoldeb Dafydd Elis-Thomas, etholwyd William Powell yn Gadeirydd dros dro.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4 - 7

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y Cynnig.

## 4 Bil yr Amgylchedd - Papur Gwyn: Papur briffio ffeithiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

4.1 Rhoddodd Andy Fraser gyflwyniad ar y cynigion yn y Papur Gwyn.

4.2 Atebodd y swyddogion gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 5 Ymchwiliad i wastraff ac adnoddau - trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad

5.1 Oherwydd y nifer fach o ymatebion a gafwyd, cytunodd y Pwyllgor i beidio â chynnal ymchwiliad i wastraff ac adnoddau, ond i drafod y pwnc mewn sesiwn graffu yn y dyfodol gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol - Y Bil Dŵr

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

## 7 Blaenraglen waith - Gwanwyn 2014

7.1 Trafododd y Pwyllgor y rhaglen waith a chytuno arni.

## 8 Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) - Trafodaeth gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

8.1 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau gan y Pwyllgor ar y canllawiau drafft i'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru).

8.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog unwaith y byddai'r Aelodau wedi cael cyfle i drafod y canllawiau drafft yn fanylach.

## 9 Papurau i'w nodi

9.1 Nododd y Pwyllgor y cofnodion.

**Y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru): Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

9.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**Llythyr gan y Llywydd - Cylch Gorchwyl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgorau**

9.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

- Y broses yn dilyn Craffu ar y Gyllideb ar gyfer 2014/15

---

### Diben

1. Yn dilyn y pryderon a godwyd gan Aelodau yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 14 Tachwedd 2013 ynghylch y broses craffu ar y gyllideb, rwyf wedi ymchwilio i'r pryderon, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi fy nghanfyddiadau.

### Cefndir

2. Cafodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd dystiolaeth lafar gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar 16 Hydref. Roedd yn rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyllid erbyn 25 Hydref. Mae Atodiad 1 yn amserlen o'r broses.

3. Yn y Pwyllgor ar 14 Tachwedd, cyfeiriodd yr Aelodau at y llythyr drafft a gafodd ei ddatgelu cyn ei gyhoeddi. Fel y nodais yng nghyfarfod y Pwyllgor, gwleidyddion sydd fel arfer yn datgelu dogfennau. Nid yw'r adroddiad hwn yn trafod y mater o ran datgelu. Fodd bynnag, rwy'n hyderus na chafodd ei ddatgelu gan swyddogion y Cynulliad. Dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol bod datgelu unrhyw ddogfennau Pwyllgor cyfrinachol, p'un a ydynt yn adroddiadau/llythyrau drafft neu'n bapurau briffio, yn mynd yn groes i'r ymddiriedaeth gydfuddiannol sy'n galluogi pwyllgorau i weithredu'n effeithiol, yn ogystal â'r egwyddorion sy'n tanategu Cod Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad.

4. Caiff fy sylwadau eu gwneud yng nghyd-destun y broses y cytunodd Aelodau'r Pwyllgor arni mewn sesiwn breifat ar 16 Hydref. Y

dyddiad cau ar gyfer sylwadau cychwynnol oedd 21 Hydref, gyda dyddiad cau o 23 Hydref ar gyfer cymeradwyaeth derfynol. Anfonwyd y fersiwn ddrafft a'r fersiwn derfynol at bob Aelod o'r Pwyllgor a'u Staff Cymorth er mwyn iddynt wneud sylwadau / eu cymeradwyo.

5. At hynny, cafodd y Pwyllgor y cyfle i drafod y llythyr mewn sesiwn breifat ar 24 Hydref. Roedd hwn yn gyfle arall y tu allan i'r broses a oedd wedi'i hamlinellu a'i chytuno'n flaenorol. Cytunodd yr Aelodau i anfon y llythyr heb ei newid, h.y. fel y cytunwyd am 12.00 ar 23 Hydref. Cafodd sylw yn y cyfryngau gyda'r nos ar 25 Hydref.

6. Byddaf nawr yn troi at y pryderon a godwyd gan yr Aelodau yn y cyfarfod ar 14 Tachwedd. Mae copi llawn o'r trawsgrifiad ar gael yma.

**Amseru'r sylw yn y cyfryngau a chytuno ar y llythyr**
*Mynegwyd pryderon mai dim ond pan gysylltodd y cyfryngau â hwy neu pan wnaethant weld adroddiadau yn y cyfryngau y cafodd yr Aelodau wybod am y llythyr. Nododd yr Aelodau hefyd y gwnaethant weld adroddiadau yn y cyfryngau cyn iddynt gael cyfle i gytuno ar y llythyr, a'u bod wedi ceisio gwneud newidiadau i'r llythyr ar ôl iddynt weld y sylw yn y cyfryngau.*

7. Dosbarthwyd y drafft cyntaf o'r llythyr i'r Aelodau ddydd Iau 17 Hydref, gyda drafft arall yn cael ei ddosbarthu ddydd Llun 21 Hydref. Nid wyf yn ymwybodol o pryd y cysylltodd y cyfryngau â'r Aelodau, ond nid wyf wedi cael unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hynny cyn un o'r dyddiadau hyn. Roedd yr Aelodau wedi cael gwybod mai dyma oedd yr amserlen arfaethedig yn y Pwyllgor ar 16 Hydref. Gallai trefniadau fod wedi'u rhoi ar waith gan swyddfeydd yr Aelodau i sicrhau bod y negeseuon e-bost yn cael eu blaenoriaethu pan gawsant eu derbyn.

8. O ran cytuno ar y llythyr, cytunodd y Pwyllgor arno'n electronig ddydd Mercher 23 Hydref, yn unol â'r weithdrefn y penderfynwyd arni ar 16 Hydref. Pan drafododd y Pwyllgor y llythyr mewn sesiwn breifat ddydd Iau 24 Hydref, cytunodd y dylai gael ei gyhoeddi heb ei newid. Roedd gan bob Aelod gopïau o'r llythyr cyn iddo gael ei gyhoeddi yn y wasg.

9. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 24 Hydref, rhoddwyd y cyfle i'r Aelodau lunio 'adroddiad lleiafrifol' a fyddai wedi galluogi'r Aelodau hynny nad oeddent yn fodlon ar gynnwys y llythyr, i fynegi eu barn a nodi sut yr oedd yn wahanol i weddill y Pwyllgor. Gwrthodwyd hyn.

10. Mewn perthynas â'r honiad bod Aelod wedi ceisio cyflwyno sylwadau am y llythyr ar ôl gweld sylw yn y cyfryngau, anfonodd yr Aelod neges e-bost ar 25 Hydref yn galw am newidiadau penodol i'r llythyr; roedd hyn ar ôl i'r llythyr gael ei gyhoeddi (ar ôl i'r Pwyllgor gytuno y diwrnod blaenorol, 24 Hydref) ond cyn bod adroddiadau yn y cyfryngau. Ni chafodd y llythyr ei adrodd yn y cyfryngau hyd nes yn hwyr yn y prynhawn ar 25 Hydref, ar ôl i'r llythyr gael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach gan yr Aelod yn dilyn sylw'r cyfryngau i'r llythyr. Roedd yr Aelod eisoes wedi mynegi pryderon ynghylch cynnwys y llythyr ddydd Mercher 23 Hydref, ac roedd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 24 Hydref pan gafodd y llythyr ei drafod.

11. Rwy'n hollol glir y rhoddwyd digon o gyfle i'r Aelodau fynegi eu barn, ac unwaith y mynegwyd unrhyw bryderon, y rhoddwyd y cyfle iddynt roi eu barn yn gyhoeddus.

*Mynegwyd pryderon gan yr Aelodau na chytunwyd ar y llythyr.*

12. I fod yn hollol glir, cytunwyd ar y llythyr yn electronig, yn unol â'r amserlen a amlinellwyd i'r Aelodau ar 23 Hydref. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 24 Hydref, cytunodd yr Aelodau i anfon y llythyr heb ei newid.

**Naws y llythyr a gohebiaeth dros e-bost**

*Mynegwyd pryderon ynghylch naws y llythyr a naws yr ohebiaeth gan y tîm clercio.*

13. Cytunodd y Pwyllgor ar y llythyr, ac roedd amser i'r Aelodau wneud sylwadau ar y cynnwys a'r naws. Credaf ei fod yn adlewyrchiad teg o gyfarfod y Pwyllgor, y dystiolaeth lafar a gafwyd, ac yn adlewyrchu'r trafodaethau a gafodd y Pwyllgor yn breifat yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor.

14. Rwyf wedi adolygu'r ohebiaeth gan y tîm clercio, a chredaf fod y naws yn gwbl dderbyniol. Mae'r negeseuon e-bost yn ffeithiol, yn nodi terfynau amser a'r broses sydd i'w dilyn. Mae'n anodd canfod unrhyw naws o ran eu drafftio.

**Terfynau amser**

*Mynegwyd pryderon ynghylch yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i gymeradwyo'r llythyr, ac na fyddai wedi'i gymeradwyo pe byddai mwy o amser ar gael.*

15. Cafodd y terfynau amser a'r amser cyfyngedig a oedd ar gael i'r Pwyllgor eu gwneud yn glir, ar lafar, i'r Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Hydref. Ar y pryd, ni wnaeth yr Aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r terfynau amser ar gyfer cymeradwyo'r llythyr na'r ffaith y byddai hyn yn cael ei wneud yn electronig. Nodaf yr ymatebodd yr Aelodau eraill o fewn yr amserlen a bennwyd, ac na chafodd unrhyw sylwadau eu gwneud ar yr amserlen hyd nes bod y terfyn amser ar gyfer sylwadau wedi mynd heibio.

16. At hynny, rhoddwyd amser ychwanegol i'r Aelodau ar ôl i'r pryderon gael eu mynegi, unwaith bod y terfyn amser y cytunwyd arno ar gyfer cymeradwyo'r llythyr wedi mynd heibio. Rhoddwyd y cyfle i'r Aelodau gyflwyno rhagor o welliannau, gydag un Aelod yn anfon gwelliannau fore dydd Iau 24 Hydref. Cafodd y Pwyllgor gyfle i drafod y newidiadau posibl hyn mewn sesiwn breifat ar 24 Hydref. Cytunodd y Pwyllgor i anfon y llythyr heb ei newid.

**Y broses a ddilynwyd**

*Mynegwyd pryderon ynghylch fformat y negeseuon e-bost y cafodd y llythyrau eu dosbarthu gyda hwy.*

17. Cafodd fersiwn ddrafft a fersiwn derfynol y llythyr eu hanfon fel negeseuon e-bost unigol heb unrhyw fusnes arall y Pwyllgor wedi'i gynnwys. Anfonwyd y negeseuon o fewnflwch Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a ddylai fod wedi tynnu sylw'r Aelodau a'u swyddfeydd i'r ffaith ei bod yn ymwneud â busnes y Pwyllgor. At hynny, dylai teitl y ddwy neges e-bost fod wedi tynnu sylw'r Aelodau a'u swyddfeydd at y ffaith bod cynnwys y neges yn bwysig. Roedd teitlau'r negeseuon fel a ganlyn: “E&S Draft Budget Letter – For

Comment” ac “Environment and Sustainability Committee – Budget letter – Final version for approval”.

## Casgliadau

18. Mynegwyd nifer o bryderon gan Aelodau'r Pwyllgor ynghylch y broses. Mae'r ffaith bod rhai o'r Aelodau'n pryderu ynghylch rhywbeth a ddrafftiwyd gan y Pwyllgor yn peri pryder i mi. Fodd bynnag, ar ôl ymchwilio i'r rhesymau a nodwyd gan yr Aelodau, mae wedi bod yn anodd eu cyfiawnhau.

19. Amlinellwyd y broses a'r amserlen yn glir i'r Aelodau ar ddechrau'r broses ar 16 Hydref. Os oedd gan yr Aelodau bryderon ynghylch yr amserlen, dyma oedd yr amser priodol i'w mynegi. Os cododd problemau yn ystod y broses gymeradwyo (fel pwysau o ran baich gwaith), dylai'r Aelodau fod wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor cyn y terfyn amser ar gyfer cymeradwyo'r llythyr. Dylid nodi pan ofynnodd yr Aelodau am gael cyflwyno sylwadau ar ôl y terfyn amser y cytunwyd arno ar gyfer cymeradwyo'r llythyr, y cawsant eu derbyn gan y tîm clercio, ac y cafodd y penderfyniad i beidio â gwneud newidiadau ei wneud gan y Pwyllgor llawn. Ar bob cam, mae'r tîm clercio wedi hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau gan y Pwyllgor.

20. Dylid nodi hefyd nad dyma'r broses gyllideb gyntaf a gynhaliwyd gan y Pwyllgor, a bod yr Aelodau'n ymwybodol bod terfynau amser tynn. Mae cyfrifoldeb ar yr Aelodau i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r terfynau amser a bennir ac y cytunir arnynt gan y Pwyllgor. Os na all yr Aelodau gwrdd â'r terfynau amser hyn, dylent wneud hyn yn glir cyn pasio'r terfyn amser, ac nid ar ôl hynny. Nodaf fod yr Aelodau eraill wedi llwyddo i wneud sylw ar y llythyr o fewn yr amserlen a roddwyd.

21. Pan gefais wybod gyntaf am bryderon yr Aelodau ynghylch y broses a'r amserlen, rhoddwyd cyfle i'r Aelodau drafod hyn gyda mi a sut y gellid amlygu eu pryderon yn y ffordd orau. Ni ddewisodd unrhyw Aelod fanteisio ar hyn.

22. O ganlyniad i hyn, rwy'n siomedig gyda'r modd y mae'r Aelodau wedi mynegi eu pryderon ar ôl cyhoeddi'r llythyr, ac y gwnaed hyn mewn sesiwn gyhoeddus o gyfarfod y Pwyllgor heb unrhyw rybudd ymlaen llaw i mi na gweddill y Pwyllgor. I ddechrau, dylai'r Aelodau fod

wedi codi'r pryderon hyn yn uniongyrchol gyda mi, fel Cadeirydd. Credaf mai'r peth gorau i'r Pwyllgor fyddai bod wedi trafod y materion hyn mewn sesiwn breifat o'r Pwyllgor, cyn penderfynu ar y ffordd orau o fynegi unrhyw bryderon yn gyhoeddus. Gallai hyn fod wedi osgoi'r angen i fynd i'r afael â llawer o'r pwyntiau sy'n codi yn yr adroddiad hwn. Beth bynnag, dylai cais fod wedi'i wneud i gynnwys eitem ar yr agenda i drafod hyn os nad oedd y broses uchod yn dderbyniol.

23. Mae rhai o'r Aelodau wedi nodi ar y cofnod cyhoeddus na chawsant gyfle i wneud sylw ar y llythyr. Ni chredaf fod hyn yn wir – rhoddwyd digon o gyfleoedd. At hynny, rhoddwyd cyfle i'r Aelodau lunio 'adroddiad lleiafrifol' a fyddai wedi eu galluogi i fynegi eu barn a gallent fod wedi trafod eu pryderon gyda mi'n uniongyrchol.

24. I gloi, rwy'n fodlon bod y broses gymeradwyo a'r amser a roddwyd i'r Aelodau wneud sylw ar y llythyr yn ddigonol. Cafodd pob Aelod gyfle i wneud sylw cyn i'r llythyr gael ei gytuno a'i gyhoeddi. Os na wnaeth yr Aelodau sylw, mater iddynt hwy fel Aelodau unigol yw hyn. Eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau eu bod yn gwneud sylw o fewn yr amserlen y cytunwyd arni.

Atodiad 1 – **Amserlen o broses y gyllideb**

| Dyddiad | Camau a gymerwyd |
|---|---|
| Dydd Mercher 16 Hydref | Y Pwyllgor yn cael tystiolaeth lafar gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Gweinidog Cyllid.<br><br>Derbyniwyd un ymddiheuriad (Julie James), ac un safle gwag (Vaughan Gething). Ni ddarparwyd unrhyw ddirprwyon ar eu cyfer.<br><br>Mewn sesiwn breifat, amlinellir yr amserlen ar gyfer trafod a chymeradwyo llythyr y gyllideb, gyda'r Aelodau'n cael gwybod am y terfynau amser tynn, a'r angen i hyn gael ei gytuno'n electronig. |
| Dydd Iau 17 Hydref – 15.35 | Dosbarthu'r neges e-bost i'r Pwyllgor gyda'r llythyr drafft. Yr Aelodau'n cael tan **11.00 ddydd Llun 21 Hydref** i wneud sylwadau. |
| Dydd Llun 21 Hydref – 11.00 | Y terfyn amser ar gyfer sylwadau'n pasio. Un gwelliant ac un sylw yn cael eu derbyn gan yr Aelodau. |
| Dydd Llun 21 Hydref – 11.21 | Dosbarthu fersiwn ddiwygiedig o'r llythyr. Yr Aelodau'n cael tan **hanner dydd ddydd Mercher 23 Hydref** i wneud eu sylwadau terfynol. |
| Dydd Mercher 23 Hydref – hanner | Y terfyn amser yn pasio, dim |

| | |
|---|---|
| dydd | sylwadau pellach yn cael eu derbyn. Derbyn bod y llythyr wedi'i gytuno fel yr amlinellwyd yn y neges e-bost flaenorol. |
| Dydd Mercher 23 Hydref - 17.23 | Neges e-bost gan Mick Antoniw yn nodi ei fod am wneud newidiadau. |
| Dydd Mercher 23 Hydref - 17.24 | Neges e-bost gan Joyce Watson yn mynegi pryderon ynghylch cynnwys y llythyr a'r amserlen ar gyfer ei gymeradwyo. |
| Dydd Mercher 23 Hydref - 17.30 | Neges e-bost gan Mick Antoniw yn mynegi pryderon ynghylch naws y llythyr a'r amserlen ar gyfer ei gymeradwyo. |
| Dydd Mercher 23 Hydref - 17.34 | Fersiwn wedi'i dyblygu o'r neges e-bost a anfonwyd gan Joyce Watson am 17.24 yn cael ei hanfon eto. |
| Dydd Mercher 23 Hydref - 17.42 | Neges e-bost gan y tîm clercio yn gofyn am unrhyw welliannau i gael eu hanfon erbyn y bore canlynol. |
| Dydd Mercher 23 Hydref - 17.47 | Neges e-bost gan Antoinette Sandbach yn tynnu sylw at yr amserlen y cytunodd y Pwyllgor arni. |
| Dydd Mercher 23 Hydref - 17.54 | Neges e-bost gan Joyce Watson yn gofyn am eglurhad o'r terfynau amser. |
| Dydd Mercher 23 Hydref - 17.55 | Neges e-bost gan Mick Antoniw yn nodi y bydd yn anfon gwelliannau erbyn y bore canlynol. |

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher 23 Hydref - 18.08 | Neges e-bost gan y tîm clercio yn egluro'r terfyn amser ar gyfer cytuno ar y llythyr. |
| Dydd Iau 24 Hydref | Ymweliad y Pwyllgor (am) / Cyfarfod allanol (pm) |
| Dydd Iau 24 Hydref 2013 - 10.34 | Neges e-bost gan Staff Cymorth Mick Antoniw yn dosbarthu fersiwn ddiwygiedig o'r llythyr. |
| Dydd Iau 24 Hydref 2013 - 11.52 | Neges e-bost gan yr Ail Glerc at y clerc yn cynnwys fersiwn o lythyr Mick gyda'r newidiadau wedi'u nodi. |
| Dydd Iau 24 Hydref - PM | Cyfarfod y Pwyllgor<br><br>Tri ymddiheuriad (Dafydd Elis-Thomas, Russell George a Julie James), un safle gwag (Vaughan Gething), dim dirprwyon ar eu cyfer. Cafodd William Powell ei ethol yn Gadeirydd dros dro.<br><br>Trafod y llythyr a'r amserlen. Y Pwyllgor yn cytuno i anfon y fersiwn o'r llythyr a ddosbarthwyd ddydd Llun 21 Hydref i'r Pwyllgor Cyllid. |
| Dydd Gwener 25 Hydref (amser cinio) | Cael cyfieithiad o lythyr y Pwyllgor. |
| Dydd Gwener 25 Hydref (amser cinio) | Anfon y llythyr i'r Pwyllgor Cyllid, Llywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Pwyllgor. |
| Dydd Gwener 25 Hydref - 14.20 | Neges e-bost gan Joyce Watson yn gofyn am gael gwneud newidiadau i'r llythyr. |

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener 25 Hydref - 15.07 | Neges e-bost gan y tîm clercio at Joyce Watson yn egluro bod y llythyr wedi'i gyhoeddi. |
| Dydd Llun 12 Tachwedd | Cael ymateb gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. |
| Dydd Mawrth 13 Tachwedd | Dosbarthu'r ymateb i'r Aelodau a'i gyhoeddi ar wefan y Pwyllgor. |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon